
# Pennod 2: Dealltwriaeth a defnydd o’r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

## Dealltwriaeth o’r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

### Ffigur 8. Gwybodaeth yr ymatebwyr am y busnesau bwyd y mae’r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn berthnasol iddyn nhw.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart



| | Column1 | | Column1 |
|---|---|---|---|
| Ddim yn gwybod | 4 | | |
| Arall | 2 | | |
| Siopau bwyd eraill | 38 | | |
| Stondinau marchnad / bwyd stryd | 44 | | |
| Archfarchnadoedd | 46 | | |
| Ysgolion, ysbytai a sefydliadau eraill | 54 | | |
| Gwestai / lletai gwely a brecwast | 77 | | |
| Tafarndai | 84 | | |
| Soipau coffi neu frechdanau | 85 | | |
| Siopau tecaw? | 87 | | |
| Caffis | 90 | | |
| Bwytai | 92 | | |

Lawrlwytho'r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 4

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba fathau o fusnesau bwyd yr oedd y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn berthnasol yn eu tyb nhw, gan ddewis o blith rhestr o fusnesau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn meddwl bod y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn berthnasol i fwytai (92%), caffis (90%), siopau tecawê (87%), siopau coffi neu frechdanau (85%), tafarndai (84%), a gwestai neu lety gwely a brecwast (77%). Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (54%) yn meddwl ei fod yn berthnasol i ysgolion a sefydliadau eraill. Roedd llai na hanner yr ymatebwyr yn meddwl bod y Cynllun yn berthnasol i archfarchnadoedd (46%) a stondinau marchnad neu fwyd stryd (44%) (Ffigur 8) (footnote 1).

## Defnydd o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedden nhw wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf (naill ai ar safle bwyd neu ar-lein) p'un a fu iddyn nhw benderfynu prynu bwyd yno ai peidio. Roedd tua 4 o bob 10 (41%) wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd yn ystod y 10 mis diwethaf (footnote 2).

Roedd ymatebwyr yng Nghymru (54%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes nag ymatebwyr yn Lloegr (40%), ac i raddau llai y rheini yng Ngogledd Iwerddon (46%).

Roedd yr arfer o wirio sgoriau hylendid bwyd yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau o bobl:


- Gr?p oedran: roedd ymatebwyr iau yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes nag oedolion h?n. Er enghraifft, roedd 59% o'r rheiny rhwng 16-24 oed wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes o'u cymharu â 18% o'r rheiny 75 oed a throsodd.
- Plant (o dan 16 oed) yn y cartref: roedd ymatebwyr â phlant (o dan 16 oed) yn y cartref (49%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes na'r rheiny heb blant o dan 16 oed yn y cartref (37%).
- NS-SEC: roedd myfyrwyr amser llawn (57%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes na'r ymatebwyr ym mhob gr?p galwedigaethol arall, er enghraifft, galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol (42%) a'r rheiny a oedd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir a/neu nad oedden nhw erioed wedi gweithio (37%).
- Diogeledd bwyd: roedd ymatebwyr â diogeledd bwyd isel (52%) neu isel iawn (52%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes na'r rhai â diogeledd bwyd uchel (38%). Roedd tua 4 o bob 10 (43%) o'r rheiny â diogeledd bwyd ymylol wedi gwirio sgôr

hylendid bwyd busnes.

## Ffigur 9. Busnesau bwyd lle’r oedd yr ymatebwyr wedi gwirio’r sgôr hylendid bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| | Column1 | | Column1 |
|---|---|---|---|
| Mewn siopau bwyd eraill | 5 | | |
| Ar stondinau marchnad / bwyd stryd | 6 | | |
| Mewn ysgolion, ysbytai a sefydliadau eraill | 7 | | |
| Mewn archfarchnadoedd | 12 | | |
| Mewn gwestai / lletai gwely a brecwast | 15 | | |
| Mewn tafarndai | 32 | | |
| Mewn siopau coffi neu frechdanau | 33 | | |
| Mewn caffis | 46 | | |
| Mewn bwytai | 69 | | |
| Mewn siopau tecaw? | 70 | | |

Lawrlwytho’r siart hon

Delwedd .csv


Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 4

Gofynnwyd i’r ymatebwyr hynny a oedd wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd pa fathau o fusnesau yr oedden nhw wedi gwirio eu sgoriau hylendid yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr wedi gwirio sgôr hylendid bwyd siopau tecawê (70%) a bwytai (69%). Roedd llai na hanner yr ymatebwyr (46%) wedi gwirio sgôr hylendid bwyd caffis, 33% wedi gwirio sgôr siopau coffi neu frechdanau, a 32% wedi gwirio sgôr tafarndai (Ffigur 9) (footnote 3).

## Ffigur 10. Sut yr oedd yr ymatebwyr wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnesau bwyd.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




Column1

| | |
|---|---|
| Mewn papur newydd lleol | 2 |
| Ar wefan arall | 2 |
| Ar ap (er enghraifft Scores on the Doors; Food Hygiene Rating) | 4 |
| Ar wefan yr ASB | 15 |
| Ar wefan busnes bwyd | 22 |
| Ar wefan neu ap archebu bwyd ar-lein (er enghraifft Just Eat, Deliveroo, Uber Eats) | 23 |
| Sticer y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd sy?n cael ei arddangos yn y busnes bwyd (yn y ffenest neu ar y drws, er enghraifft) | 83 |

Lawrlwytho'r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 4

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a oedd wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd sut yr oedden nhw wedi gwirio'r sgôr. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (83%) wedi edrych ar y sticer sgôr hylendid bwyd a oedd yn cael ei arddangos ar safle'r busnes bwyd. Roedd bron i chwarter (23%) wedi gwirio'r sgôr ar wefan neu ap archebu bwyd ar-lein (er enghraifft, Just Eat, Deliveroo, Uber Eats), roedd 22% wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes ar wefan y busnes bwyd ei hun, ac roedd 15% o'r ymatebwyr wedi gwirio'r sgôr hylendid bwyd ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (Ffigur 10) (footnote 4).

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yng Nghymru (83%) a Gogledd Iwerddon (89%) yn fwyaf tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid busnes bwyd trwy edrych ar sticer a oedd yn cael ei arddangos ar safle'r busnes**. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn Lloegr (24%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid busnes bwyd trwy wefan neu ap archebu bwyd ar-lein na'r rheiny yng Nghymru (13%) a Gogledd Iwerddon (11%).

Roedd y dull o wirio sgoriau hylendid bwyd yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau o bobl:

- Gr?p oedran: roedd oedolion o dan 34 oed (er enghraifft, 42% o'r rheiny rhwng 25-34 oed) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid busnes bwyd ar wefan neu ap archebu bwyd ar-lein (er enghraifft, Just Eat, Deliveroo, Uber Eats) nag oedolion 35 oed a throsodd (er enghraifft, 6% o'r rheiny 75 oed a throsodd).
- Trefol yn erbyn gwledig: roedd ymatebwyr a oedd yn byw mewn ardal drefol (26%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid busnes bwyd drwy wefan neu ap archebu bwyd ar-lein (er enghraifft, Just Eat, Deliveroo, Uber Eats) na'r rheiny oedd yn byw mewn ardal wledig (9%).
- Diogeledd bwyd (footnote 5): roedd ymatebwyr â diogeledd bwyd isel iawn (33%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid busnes bwyd trwy wefan y busnes bwyd ei hun na'r rheiiny â diogeledd bwyd uchel (20%).

Mewn rhai achosion, gall y ffordd yr oedd gwahanol grwpiau o bobl yn gwirio sgôr hylendid busnes bwyd ddangos y tebygolrwydd y byddai'r gr?p yn defnyddio gwasanaeth penodol wrth fwyta allan neu archebu tecawê, fel gwefan neu ap archebu bwyd ar-lein (er enghraifft, Just Bwyta, Deliveroo, Uber Eats). Er enghraifft, roedd oedolion iau yn fwy tebygol o fod wedi bwyta bwyd o wefan neu ap archebu bwyd ar-lein ac o fod wedi gwirio sgôr hylendid busnes bwyd drwy wefan neu ap archebu bwyd ar-lein o gymharu ag oedolion h?n (footnote 6).

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes yn ystod y 12 mis diwethaf pa mor aml yr oedd yn hawdd dod o hyd i'r sgôr. Dywedodd tua 1 o bob 5 o ymatebwyr ei bod bob amser yn hawdd dod o hyd i sgôr hylendid bwyd (18%), dywedodd 62% ei bod yn hawdd dod o hyd i'r sgôr y rhan fwyaf o'r amser a dywedodd 18% ei bod yn hawdd dod o hyd iddi tua hanner yr amser neu'n llai aml (footnote 7).

## Defnyddio’r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd wrth fwyta allan neu brynu bwyd tecawê


Gofynnwyd i’r ymatebwyr pa ffactorau, o blith rhestr o opsiynau, y byddan nhw fel arfer yn eu hystyried wrth benderfynu ble i fwyta allan neu o ble i archebu bwyd tecawê (footnote 8).

### Y ffactorau y bydd pobl yn eu hystyried pan fyddant yn archebu bwyd tecawê

## Ffigur 11. Y deg ffactor mwyaf cyffredin y bydd pobl yn eu hystyried pan fyddant yn archebu bwyd tecawê.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart



| | Column1 |
|---|---|
| P'un a oes gwybodaeth am galor?au yn cael ei darparu | 2 |
| P'un a oes gwybodaeth am alergenau yn cael ei darparu | 5 |
| P'un a oes dewisiadau iachach ar gael | 8 |
| P'un a yw'n fusnes annibynnol neu'n rhan o gadwyn | 11 |
| Adolygiadau (er enghraifft ar TripAdvisor, Google, y cyfryngau cymdeithasol, neu mewn papurau newydd) | 29 |
| P'un a oes dewis dosbarthu neu gasglu | 32 |
| P'un a oes modd archebu bwyd ar-lein, er enghraifft trwy wefan neu ap | 36 |
| Lleoliad y siop tecaw? | 37 |
| Y cynigion, bargeinion neu ostyngiadau sydd ar gael | 38 |
| Amseroedd dosbarthu neu gasglu | 38 |
| Sg?r hylendid bwyd | 38 |
| Teulu neu ffrindiau wedi argymell | 50 |
| Math o fwyd (fel dull coginio neu ddewisiadau figan/llysieuol) | 59 |
| Pris (gan gynnwys cost dosbarthu) | 61 |
| Ansawdd y bwyd | 75 |
| Fy mhrofiad blaenorol o'r siop tecaw? | 80 |

Lawrlwytho’r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 4

O blith y rheiny a oedd wedi archebu bwyd o siop tecawê, profiad blaenorol yr ymatebwyr o’r siop tecawê (80%) ac ansawdd y bwyd (75%) oedd y ffactorau mwyaf cyffredin y byddai’r ymatebwyr yn eu hystyried wrth benderfynu o ble i archebu bwyd tecawê (75%). Roedd tua 4 o bob 10 (38%) o’r ymatebwyr wedi ystyried y sgôr hylendid bwyd wrth benderfynu o ble i archebu bwyd tecawê (Ffigur 11) (footnote 9) .

Mae tua 4 o bob 10 o ymatebwyr yn Lloegr (38%) a Gogledd Iwerddon (40%) yn ystyried y sgôr hylendid bwyd wrth archebu bwyd tecawê o gymharu â 46% o’r rheini yng Nghymru**.

Roedd yr arfer o ystyried y sgôr hylendid bwyd wrth benderfynu o ble i archebu bwyd tecawê yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau o bobl:


- Gr?p oedran: roedd ymatebwyr 44 oed neu iau (er enghraifft, 45% o’r rheiny rhwng 25-34 oed) yn fwy tebygol o ystyried y sgôr hylendid bwyd wrth archebu bwyd tecawê nag oedolion 75 oed a throsodd (22%).
- Incwm blynyddol cartrefi: roedd ymatebwyr ag incwm o £19,000 neu is (45%) yn fwy tebygol o ystyried sgôr hylendid bwyd busnes wrth archebu bwyd tecawê na’r rheiny ag incwm o fwy na £96,000 (28%).
- Trefol yn erbyn gwledig: roedd ymatebwyr a oedd yn byw mewn ardal drefol (40%) yn fwy tebygol o ystyried y sgôr hylendid bwyd wrth archebu siopau bwyd tecawê o gymharu â’r rheiny a oedd yn byw mewn ardal wledig (30%).
- Diogeledd bwyd: roedd ymatebwyr â diogeledd bwyd isel iawn (54%) yn fwy tebygol o ystyried y sgôr hylendid bwyd wrth archebu tecawê o gymharu â’r rheiny â diogeledd bwyd uchel (35%).

## Ffactorau a ystyrir wrth fwyta allan

## Ffigur 12. Y deg ffactor mwyaf cyffredin y bydd pobl yn eu hystyried wrth fwyta allan.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| | Column1 | | Column1 |
|---|---|---|---|
| Sg?r hylendid bwyd | 41 | | |
| Awyrgylch / naws | 48 | | |
| Math o fwyd (fel dull coginio neu ddewisiadau figan/llysieuol) | 56 | | |
| Ansawdd y gwasanaeth | 63 | | |
| Teulu neu ffrindiau wedi argymell | 64 | | |
| Pa mor l?n yw'r lle | 65 | | |
| Pris | 66 | | |
| Lleoliad | 68 | | |
| Fy mhrofiad blaenorol o'r lle | 80 | | |
| Ansawdd y bwyd | 82 | | |
| Quality of service | 63 | | |
| Recommendations from family or friends | 64 | | |
| Cleanliness of the place | 65 | | |

| | Column1 | | Column1 |
|---|---|---|---|
| Price | 66 | | |
| Location | 68 | | |
| My previous experience of the place | 80 | | |
| Quality of food | 82 | | |

Lawrlwytho’r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 4

O blith y rheiny sy’n bwyta allan, ansawdd y bwyd (82%) a phrofiad blaenorol yr ymatebwyr o’r lle (80%) oedd y ffactorau mwyaf cyffredin y bydd yr ymatebwyr yn eu hystyried wrth benderfynu ble i fwyta allan. Roedd tua 4 o bob 10 (41%) yn ystyried y sgôr hylendid bwyd wrth benderfynu ble i fwyta (Ffigur 12) (footnote 10).

## Pa mor aml roedd ymatebwyr yn gwirio sgôr hylendid busnes bwyd wrth gyrraedd y safle

Gofynnwyd i’r ymatebwyr pa mor aml y byddan nhw’n gwirio sgôr hylendid bwyd bwyty neu siop tecawê wrth gyrraedd y safle. Dywedodd un o bob 10 (10%) eu bod bob amser yn gwirio sgôr hylendid bwyd busnes wrth gyrraedd, dywedodd 20% o ymatebwyr eu bod yn gwneud hyn y rhan fwyaf o’r amser a dywedodd 31% eu bod yn gwneud hyn yn llai aml (hynny yw ‘tua hanner y amser’ neu ‘o bryd i’w gilydd’). Dywedodd ychydig dros draean (35%) o ymatebwyr na fyddan nhw byth yn edrych ar sgôr hylendid bwyd busnes wrth gyrraedd (footnote 11).

1. Cwestiwn: Pa rai o’r canlynol ydych chi’n meddwl sy’n dod o dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd? Ymatebion: bwytai, caffis, siopau tecawê, siopau coffi neu frechdanau, tafarndai, gwestai/llety gwely a brecwast, archfarchnadoedd, ysgolion neu sefydliadau eraill, stondinau marchnad/bwyd stryd, gweithgynhyrchwyr (masnachwyr busnes i fusnes) (Cymru yn unig), siopau bwyd eraill, arall. Sylfaen = 4755, pob un a wnaeth ymateb ar-lein a’r rheiny a wnaeth gwblhau’r arolwg ‘Bwyta Allan’ drwy’r post.

2. Cwestiwn: Yn ystod y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi gwirio sgôr hylendid busnes bwyd? Efallai eich bod wedi gwirio’r sgôr ar safle busnes, ar-lein, mewn taflenni neu ar fwydlenni, p’un a wnaethoch chi benderfynu prynu bwyd yno ai peidio. Ymatebion: Ydw, rydw i wedi gwirio Sgôr Hylendid Bwyd busnes bwyd, Nac ydw, dydw i ddim wedi gwirio Sgôr Hylendid Bwyd busnes bwyd, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4755, yr holl ymatebwyr ar-lein a’r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy’r post.

3. Cwestiwn: Ym mha rai o’r busnesau bwyd canlynol ydych chi wedi gwirio’r sgoriau hylendid yn ystod y 12 mis diwethaf? Ymatebion: Mewn bwytai, Mewn caffis, Mewn siopau tecawê, Mewn siopau coffi neu frechdanau, Mewn tafarndai, Mewn gwestai/llety gwely a brecwast, Mewn archfarchnadoedd, Mewn ysgolion neu sefydliadau eraill, Ar stondinau marchnad/bwyd stryd, Gweithgynhyrchwyr (masnachwyr busnes i fusnes) (Cymru yn unig), Mewn siopau bwyd eraill, Rhywle arall, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 2085, yr holl ymatebwyr ar-lein a’r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy’r post a oedd wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd yn y 12 mis diwethaf.

4. Cwestiwn: Sut gwnaethoch chi wirio'r sgoriau hyn? Ymatebion: Fe edrychais i ar sticer y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a oedd yn cael ei arddangos ar safle'r busnes bwyd (fel ffenestr neu ddrws y busnes), Fe edrychais i ar wefan neu ap archebu bwyd ar-lein (er enghraifft, JustEat, Deliveroo, UberEats), Fe edrychais i ar wefan y busnes bwyd ei hun, Fe edrychais i ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Fe edrychais i ar ap (er enghraifft, Sgôr Hylendid Bwyd Scores on the Doors), Fe edrychais i mewn papur newyddion lleol, Fe edrychais i ar wefan arall, Arall, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 2085, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy'r post a oedd wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd.

5. Nodir ystyr y term mynediad at gyflenwad bwyd a'r dulliau a ddefnyddir i'w fesur yn yr adran Termau Technegol a Diffiniadau

6. Cwestiwn: Yn ystod y 4 wythnos ddiwethaf, ydych chi wedi bwyta bwyd o'r canlynol….? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol) Ymatebion: Wedi archebu bwyd tecawê yn uniongyrchol o siop tecawê neu fwyty, O gaffi, siop goffi neu siop frechdanau (naill ai i'w fwyta ar y safle neu i'w gymryd i ffwrdd), Wedi archebu bwyd tecawê trwy gwmni dosbarthu bwyd ar-lein (er enghraifft, Just Eat, Deliveroo, Uber Eats), O safle bwyd brys (naill ai i'w fwyta ar y safle neu i'w gymryd i ffwrdd), Mewn bwyty, Mewn tafarn/bar, O ffreutur (er enghraifft, yn y gwaith, ysgol, prifysgol, neu ysbyty), O fan bwyd symudol neu stondin fwyd, Mewn gwesty, safle gwely a brecwast, neu lety, O leoliad adloniant (er enghraifft, sinema, ale fowlio, clwb chwaraeon), Trwy ap rhannu bwyd (er enghraifft, Olio neu Too Good To Go), O Facebook Marketplace (er enghraifft, bwyd neu brydau wedi'u paratoi ymlaen llaw), Dim un o'r rhain. Sylfaen = 4755, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy'r post. Sylwch, nid yw'r canrannau a ddangosir yn dod i gyfanswm o 100% gan y gellid dewis ymatebion lluosog.

7. Cwestiwn: Pan fyddwch chi'n chwilio am sgoriau hylendid bwyd ar gyfer busnesau bwyd, pa mor aml y byddant yn hawdd eu canfod? Ymatebion: Bob amser, Y rhan fwyaf o'r amser, Tua hanner yr amser, Weithiau, Byth, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 2085, Sylfaen: Yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a lenwodd yr holiadur 'Bwyta Allan' drwy'r post, a oedd wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.

8. Mae hyn yn cynnwys bwyd tecawê a archebir yn uniongyrchol o siop tecawê neu fwyty neu drwy gwmni dosbarthu ar-lein.

9. Cwestiwn: Yn gyffredinol, wrth archebu bwyd o siopau tecawê (naill ai'n uniongyrchol o siop tecawê neu fwyty neu drwy gwmni dosbarthu bwyd ar-lein fel Just Eat, Uber Eats neu Deliveroo) beth ydych chi'n ei ystyried wrth benderfynu o ble i archebu? Ymatebion: Fy mhrofiad blaenorol o'r siop tecawê, Ansawdd y bwyd, Pris (gan gynnwys cost dosbarthu'r bwyd), Y math o fwyd (er enghraifft, y math o cuisine neu ddewisiadau llysieuol/figan), Argymhellion teulu neu ffrindiau, Y Sgôr Hylendid Bwyd, Lleoliad y siop tecawê, A oes dewisiadau dosbarthu neu gasglu ar gael, A oes cynigion, bargeinion neu ostyngiadau ar gael, Yr amseroedd danfon/casglu, A oes modd archebu'r bwyd ar-lein er enghraifft, drwy wefan neu ap, Adolygiadau er enghraifft, ar TripAdvisor, Google, y cyfryngau cymdeithasol neu mewn papurau newydd neu gylchgronau, A yw'n fusnes annibynnol neu'n rhan o gadwyn, A oes dewisiadau iachach ar gael, A oes gwybodaeth am alergenau ar gael, A oes gwybodaeth am galorïau ar gael, Dim o'r rhain, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 3233, yr holl ymatebwyr ar-lein sy'n archebu bwyd tecawê.

10. Cwestiwn: Yn gyffredinol, pan fyddwch chi'n bwyta allan, beth byddwch chi'n ei ystyried pan fyddwch chi'n penderfynu ble i fynd? Meddyliwch am fwyta allan mewn bwytai, tafarndai/bariau, a chaffis/siopau coffi/siopau brechdanau. Ymatebion: Ansawdd y bwyd, Fy mhrofiad blaenorol o'r lle, Glendid y lle, Ansawdd y gwasanaeth, Argymhellion teulu neu ffrindiau, Pris, Lleoliad, Y math o fwyd (er enghraifft, y math o cuisine neu ddewisiadau llysieuol/figan), Y Sgôr Hylendid Bwyd, Awyrgylch y lle, A oes cynigion, bargeinion neu ostyngiadau ar gael, Adolygiadau e.e. ar TripAdvisor, Google, y cyfryngau cymdeithasol, neu mewn papurau newyddion neu gylchgronau, A yw'n fusnes annibynnol neu'n rhan o gadwyn, A oes dewisiadau iachach ar gael, A yw'r lle'n croesawu plant, A oes gwybodaeth am alergenau ar gael, A oes gwybodaeth am galorïau ar gael, Dim o'r rhain, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 3616, pob un a ymatebodd ar-lein sy'n bwyta allan.

11. Cwestiwn: Pan fyddwch chi'n cyrraedd bwyty neu siop tecawê, pa mor aml, os o gwbl, y byddwch chi'n edrych ar sgôr hylendid busnes bwyd? Ymatebion: Byddaf i bob amser yn edrych ar y sgôr pan fyddaf i'n cyrraedd, Byddaf i'n gwneud hyn y rhan fwyaf o'r amser, Byddaf i'n gwneud hyn tua hanner yr amser, Byddaf i'n gwneud hyn o bryd i'w gilydd, Dydw i byth yn gwneud hyn pan fyddaf i'n cyrraedd, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4575, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur 'Bwyta Allan' drwy'r post a ddywedodd sut y byddan nhw'n gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd, ac eithrio'r rheiny nad ydynt yn bwyta mewn bwytai nac yn archebu bwyd o siopau tecawê.